

Ysgol Gynradd Somerton, digwyddiad Dewch i Ddathlu!, *Dysgu creadigol drwy'r celfyddydau*

Cyngor Celfyddydau Cymru

# Adolygiad Buddsoddi 2020:
## Ymateb i'r Ymgynghoriad am y Cylch Gorchwyl

Chwefror 2020

Cyngor Celfyddydau Cymru
Arts Council of Wales

Noddir gan Lywodraeth Cymru
Sponsored by Welsh Government

Rhagair 3

1. Yr ymatebion 4

2. Canllawiau cynllunio 6

3. Ffurflen gais 19

4. Sylwadau cyffredinol 24

5. Sylwadau i gloi 35


hyderus o ran anabledd
CYFLOGWR

Mae Cyngor Celfyddydau Cymru yn ymrwymedig i ddarparu gwybodaeth mewn print bras, Braille, ar dâp sain ac ar ffurf Iaith Arwyddion Prydain. Byddwn yn ceisio darparu gwybodaeth mewn ieithoedd ar wahân i'r Gymraeg a'r Saesneg ar gais.

# Rhagair

Mae'r ddogfen yma'n cynnwys ein hadborth o'r ymarfer ymgynghori cyntaf a oedd yn rhan o broses adolygiad buddsoddi 2020.

Cynhelir yr adolygiadau buddsoddi bob pum mlynedd ac maent yn penderfynu pa sefydliadau y bydd Cyngor Celfyddydau Cymru yn eu hariannu yn y pum mlynedd nesaf. Mae'r penderfyniadau'n bwysig a phellgyrhaeddol. Felly, rydym ni'n gwneud popeth yn ein gallu i wneud yn siŵr bod ein prosesau'n glir, yn deg ac yn rhesymol. Dyna nod yr ymgynghoriad.

Roedd yr ymgynghoriad wedi agor ar 1 Tachwedd 2019 a daeth i ben ar 10 Ionawr 2020 a dyma'r meysydd dan sylw:

- Canllawiau Cynllunio: adolygiad buddsoddi 2020
- Templed ffurflen gais yr adolygiad buddsoddi
- Gwneud apêl: adolygiad buddsoddi 2020
- Ffurflen apêl: adolygiad buddsoddi 2020

Roedd y dogfennau ymgynghori ar gael ar ein gwefan. Roeddem ni hefyd wedi defnyddio cysylltiadau uniongyrchol a'r cyfryngau cymdeithasol i hyrwyddo'r cyfle i ymateb.

Mae'r adborth a gawsom yn y ddogfen yma. Mae'r Cyngor wedi ystyried yn fanwl yr holl adborth. Mae rhai pethau wedi newid o ganlyniad. Ond oherwydd nifer y gwahanol ymholiadau, rydym ni wedi canolbwyntio yma ar y meysydd lle mae'n amlwg bod rhaid inni esbonio'n bellach.

Byddwn ni'n gwneud mân newidiadau eraill yn syth i ddogfennau terfynol yr adolygiad buddsoddi heb gyfeirio'n benodol atynt yma - er enghraifft, gwallau teipio.

Yn y rhan fwyaf o achosion, mae'r Cyngor wedi derbyn y pwyntiau roeddech chi wedi'u codi. Rydym ni'n esbonio pan nad ydym ni wedi cytuno â phwyntiau.

Rydym ni'n gwybod eich bod wedi buddsoddi llawer o amser ac egni wrth ymateb. Mae'r dogfennau terfynol yn well o lawer oherwydd hyn. Hoffwn ni ddiolch yn ddiffuant ichi.

Cyngor Celfyddydau Cymru
Chwefror 2020

# 1. Yr ymatebion


Mae'r tablau canlynol yn crynhoi'n gyffredinol fanylion yr ymatebion i'r ymgynghoriad.

| | Nifer |
|---|---|
| Ymatebion Cymraeg | 9 |
| Ymatebion Saesneg | 50 |
| Cyfanswm | 59 |

## Cwestiwn 1

Pa fath o sefydliad ydych chi?

| Dewisiadau | Canran yr ymateb | Nifer yr ymatebion |
|---|---|---|
| Sefydliad ym Mhortffolio presennol y Cyngor | 71.2% | 42 |
| Sefydliad sy'n cael arian arall gan y Cyngor ar hyn o bryd | 20.3% | 12 |
| Sefydliad nad yw wedi cael arian gan y Cyngor yn y tair blynedd diwethaf | 3.4% | 2 |
| Cynrychiolydd awdurdod lleol | 0 | 0 |
| Nid sefydliad mohonof, artist unigol wyf | 1.7% | 1 |
| Arall | 3.4% | 2 |
| cwestiynau wedi'u hateb | | 59 |
| cwestiynau wedi'u hepgor | | 0 |



Daeth y rhan fwyaf o'r ymatebion o’n Portffolio presennol. Ar y rhagdybiaeth bod un ymateb gan un sefydliad, ymatebodd ychydig dan ddwy ran o dair o’r portffolio.

O ran y gweddill, yn y categori 'arall' nododd y ddau eu bod yn ‘sefydliad sydd wedi derbyn arian y Cyngor yn y tair blynedd diwethaf' ac ‘ymgynghorydd celfyddydol llawrydd/Cydweithiwr Celfyddydol y Cyngor’. Roeddem ni hefyd yn falch o gael ymateb gan Gadeirydd Pwyllgor Diwylliant, y Gymraeg a Chyfathrebu yn y Cynulliad Cenedlaethol.

# 2. Canllawiau cynllunio

## Cwestiwn 2

**A ydy'r canllawiau cynllunio'n glir ac A ydy'n cynnwys yr holl wybodaeth angenrheidiol i ymgeisio? Os oes gennych unrhyw welliannau, rhowch wybod inni.**

Dyma ddadansoddiad o'r ymatebion:

| | | |
|---|---|---|
| Ydynt | 50 | 84.7% |
| Nac ydynt | 1 | 1.7% |
| Ddim yn siŵr | 6 | 10.2% |
| Dim ateb (neu gwestiwn wedi'i hepgor) | 2 | 3.4% |

### Crynodeb o'r ymatebion

Roedd yn braf gweld bod y mwyafrif helaeth o'r ymgeiswyr yn meddwl bod y canllawiau'n glir a'u bod yn cynnwys y wybodaeth angenrheidiol.

Ar y cyfan, roedd ymatebwyr yn croesawu'r broses ymgeisio haws. Roedd rhai am gynnwys cwestiynau ychwanegol ond roedden nhw hefyd yn deall mai ffurflen gais hirach fyddai'r canlyniad. Rydym ni'n gwybod y gall ymgeisio gymryd llawer o amser a gwaith. Rydym ni felly wedi ceisio cadw'r ddysgl yn wastad rhwng cael rhagor o gwestiynau ychwanegol a darparu  rhagor o ryddid i'r ymgeiswyr roi gwybodaeth. Roedd llawer o ymgeiswyr yn awyddus i gyflwyno gwybodaeth yn eu geiriau eu hunain, felly lle bynnag y bo'n bosibl rydym ni wedi ceisio gadael i bobl wneud hynny.

Gofynnodd rhai ymatebwyr inni fod mor glir â phosibl am flaenoriaethau allweddol y Cyngor a pheidio â'u drysu â meini prawf ategol. Roedd sôn bod gwybodaeth anghyson a thrwsgl yng ngeiriad y Rhagair.

Rydym ni wedi gwneud y geiriad yn gliriach. Cawsom hefyd ymatebion diddorol am ddibenion arian cyhoeddus ar gyfer y celfyddydau.

Ar y cyfan roedd y rhai a ychwanegodd sylwadau yn rhai a atebodd *Nac ydynt* neu *Ddim yn siŵr* i'r cwestiynau. Yn bennaf roedd y sylwadau am sut y gallai'r sector estyn ei gyrraedd i gynnwys cynulleidfaoedd newydd.

Bydd y ffactorau yma wrth wraidd ein proses asesu, felly bydd yn bwysig iawn fod ymgeiswyr yn disgrifio sut byddant yn gwneud hyn a'u hamcanion penodol.

Roedd nifer wedi gofyn inni egluro ein diffiniadau o 'fynychu' a 'chyfranogi'.

Mae cyfranogi'n wahanol i fynychu digwyddiadau celfyddydol. Wrth gwrs mae bod yn aelod o'r gynulleidfa wastad ag elfen o gyfranogi o'r digwyddiad. Mae'r gelfyddyd orau wastad yn cynnwys y gynulleidfa ac ennyn ymateb emosiynol ganddi.

Ond roedd ymchwil gan y Cyngor ym Mawrth 2008[1] yn awgrymu'r gwahaniaeth canlynol:

> "Diffinnir mynychu fel defnydd cymharol oddefol o weithgareddau gan sefydliadau celfyddydol. Mae'n weithgarwch sy'n seiliedig ar gynulleidfa'n bennaf ac mae'n debyg i ddefnyddio cynnyrch. Mae'n debygol y bydd elfen fasnachol yno fel tâl am fynychu.
>
> Ar y llaw arall mae cyfranogi'n creu canlyniad gan y cyfranogwr mewn profiad uniongyrchol o fath o ymarfer celfyddydol. Yn gyffredinol, bydd yr unigolyn yn cymryd rhan mewn creadigrwydd, gan amlaf dan arweiniad artist neu berfformiwr, ond sy'n gofyn am fewnbwn creadigol gan y cyfranogwr.
>
> Mae cyfranogi'n cyfeirio at bobl sy'n cymryd rhan weithredol; gwneud a chreu."

Nododd rhai'r anhawster o ddisgrifio cyfansoddiad demograffig cynulleidfaoedd a'u nodweddion gwarchodedig. Rydym ni'n gwybod weithiau nad yw'n hawdd. Byddwn ni o hyd yn annog ymgeiswyr i feddwl yn ddychmygus am sut i ddadansoddi a deall eu cynulleidfa a'u ffordd o egluro hyn inni.

Soniodd dau am eu digalondid o weld yr ystadegau am ymgysylltu a chyfranogi yn Lloegr gan gymharu'r sefyllfa ag un Cymru. Rydym ni'n cytuno a byddwn ni'n torri'r rhain o'r ddogfen.

Ond mae consensws clir bod y cymunedau lleiaf cefnog, y rhai llai addysgedig a'r rhai mwyaf difreintiedig yn gymdeithasol yng Nghymru yn cael eu hamddifadu'n anghyfartal o hygyrchedd i'r celfyddydau. Mae'n hanfodol ein bod yn mynd i'r afael â hyn. Dylem ni hefyd fod yn gliriach – fel y nododd nifer – fod effaith negyddol tlodi ac anfantais economaidd yr un mor bwysig â rhwystrau eraill.

Nododd un ymatebydd:

> "Mae'r rhan fwyaf o'r wybodaeth yn glir ond mae'r broses yn ddibynnol iawn ar wybodaeth flaenorol - o derminoleg a sut mae'r Cyngor yn asesu blaenoriaethau. Nid oes canllawiau ynghylch pa weithgarwch sy'n gymwys fel rhan o allbwn sefydliad cyfan. Mae'n anodd asesu faint o weithgarwch sy'n greiddiol i sefydliad."

[1] *Arts and Public Engagement*: yr Athro Dave Adamson, Penny Byrne, Dr Neil Caldwell, Anne England a'r Athro Hamish Fyfe (Cyngor Celfyddydau Cymru, 2008)

Mater i'r sefydliadau eu hunain yw penderfynu beth yw eu hincwm craidd. Byddwn ni'n edrych ar y rhaglenni gwaith y mae sefydliadau am dynnu ein sylw atynt ac asesu i ba raddau y maent yn helpu i gyflawni ein blaenoriaethau ni.

Gofynnodd un ymatebydd:

> "faint o arian y gallai sefydliad ei gael? Er enghraifft, a fyddai'n bosibl i sefydliad wneud cais am lawer mwy o arian nag y mae'n ei gael ar hyn o bryd, neu a fyddai hyn yn annoeth?"

Gofynnwn ni i ymgeiswyr feddwl yn ofalus iawn cyn gwneud cais am arian sy'n sylweddol uwch nag y maent yn ei gael ar hyn o bryd, yn enwedig os ydynt yn aelod o'r portffolio.

Ni wyddom a fydd arian ychwanegol ar gael ar gyfer proses yr adolygiad. Ac os nad oes – sy'n bosibilrwydd go iawn – bydd ein rhyddid i negodi'n gyfyngedig. Os byddwch chi'n penderfynu eich bod am wneud cais am ragor o arian, dylai fod gennych resymeg glir. Ond gofynnwn ichi ddefnyddio eich crebwyll a'ch synnwyr cyffredin wrth gydnabod y sefyllfa economaidd sydd ohoni. Mae'n gwbl bosibl mai gwrthod a wnawn gais am gynnydd.

Os ydych chi'n ystyried ymgeisio am arian ychwanegol ar y sail nad yw eich sefydliad yn cael digon o arian ar hyn o bryd, byddem ni'n eich cynghori i fod yn ofalus iawn. Gwyddom fod llawer o sefydliadau'n wynebu pwysau ariannol ac yn gweithio â chyllideb dynn iawn. Mewn byd delfrydol byddem ni am weld ein holl bortffolio'n cael digonedd o arian i ffynnu. Ond os na fyddwn ni'n gallu fforddio gwneud hyn, ac os yw sefydliad yn taeru nad yw'n bosibl iddo allu cyflawni ei waith am y lefel debygol o arian, yr unig opsiwn rhesymegol fyddai rhoi'r gorau i'w ariannu'n llwyr. Wrth gwrs ni fyddem ni'n gweithredu ar fyrder yn y fath achos. Ond rydym ni'n disgwyl i sefydliadau roi'r math o wybodaeth gywir a rhesymol fydd yn ein galluogi i wneud penderfyniadau'n hyderus.

Gofynnodd rhai a allai ceisiadau am arian gynnwys arian prosiect y Loteri Genedlaethol gan y Cyngor neu arian y Loteri Genedlaethol gan raglenni neu gynlluniau eraill dan awdurdod dirprwyedig. Mae dau sefydliad – Ffilm Cymru a Chelfyddydau Cenedlaethol Ieuenctid Cymru – yn cael arian craidd wedi'i ddirprwyo gan y Loteri Genedlaethol. Ni ddylai sefydliadau eraill gynnwys arian y Loteri Genedlaethol yn eu ceisiadau.

## Ein hymateb

Rydym ni falch o weld bod y rhan fwyaf o'r ymatebwyr yn credu bod y cylch gorchwyl yn glir ac yn hawdd ei ddeall. Byddwn ni'n mynd i'r afael â'r pwyntiau uchod yn y ddogfen derfynol.

## Cwestiwn 3

**A ydy'r meini prawf cymhwysedd yn glir? Os nad ydych, pa welliannau yr hoffech eu hawgrymu?**

| | | |
|---|---:|---:|
| Ydynt | 51 | 86.4% |
| Nac ydynt | 3 | 5.1% |
| Ddim yn siŵr | 4 | 6.8% |
| Dim ateb | 1 | 1.7% |

### Crynodeb

Nododd y rhan fwyaf fod y meini prawf cymhwysedd yn glir. Ond roedd rhai cwestiynau penodol.

Gofynnodd un a ellid cynnwys "sefydliadau dan arweiniad Prifysgol" yn y meini prawf cymhwysedd. Os yw'r sefydliad yn darparu budd cyhoeddus clir a sylweddol, byddai hynny'n iawn. Byddwn ni'n diweddaru'r meini prawf i adlewyrchu hyn.

O ran sefydliadau sy'n ymddiriedolaethau roedd hefyd gwestiynau ynghylch eu statws cyfansoddiadol a chyfreithiol. Mae'r ymddiriedolaethau fel arfer wedi'u cyfansoddi'n elusennau. Rydym ni o'r farn bod ymddiriedolaethau o'r fath yn gwmnïau ar wahân, hyd yn oed os ydynt wedi tyfu, fel petai, o awdurdod lleol fel endid cyfreithiol annibynnol (neu'n gweithio ar hyn o bryd mewn partneriaeth ag awdurdod lleol).

Holodd un arall am gymhwysedd cwmni cyfyngedig drwy gyfranddaliadau. Ni fydd y sefydliadau hyn yn gymwys i'w cynnwys yn y portffolio ar hyn o bryd gan nad yw'r rhesymeg dros eu strwythur cyfreithiol wedi'i chyfansoddi'n elusennol. Ar gyfer rhai prosiectau, a than rai amgylchiadau, efallai y bydd y cwmnïau yma'n gallu gwneud cais am arian prosiect ar wahân. Gweler ein gwefan a'n canllawiau ariannu am ragor o wybodaeth. Mae cwmni buddiannau cymunedol neu fudiad corfforedig elusennol yn gymwys i wneud cais.

Dylai pob ymgeisydd allu darparu o leiaf ddwy flynedd o ddatganiadau ariannol (oni bai y gallant ddangos bod rheolaeth y cwmni wedi'i throsglwyddo i strwythur y cwmni newydd yn fwy diweddar, neu am resymau busnes eraill).

Mae rhai sefydliadau sy'n perthyn i'r awdurdod lleol neu sydd dan arweiniad Prifysgol wedi cwestiynu ein cyngor am y budd o sefydlu Bwrdd Ymgynghori. (Eu hawgrym oedd y gallai fod yn anodd ei gyflawni yn yr amserlen). Bydd angen inni gael sicrwydd bod gwiriadau a gwrthwiriadau priodol ar waith. Felly, os nad ydych chi'n sefydliad sydd ar eich pen eich hun neu'n cael ei gyfansoddi'n annibynnol, byddem ni'n dal i ddisgwyl gweld strwythurau llywodraethu a chynghori sy'n canolbwyntio ar reoli'n effeithiol weithgareddau eich sefydliad.

## Ein hymateb

Y prif newid fydd egluro'r meini prawf cymhwysedd. Byddant nawr yn darllen fel a ganlyn:

"Dyma’r sefydliadau a gaiff eu cynnwys i'w hystyried yn yr adolygiad buddsoddi (ac felly'n ' gymwys am arian yn y dyfodol):

a) unrhyw sefydliad sydd:

- yng Nghymru ac wedi'i gyfansoddi'n ffurfiol fel un o'r canlynol:

  1. cwmni cyfyngedig drwy warant
  2. elusen gofrestredig (gan gynnwys ymddiriedolaethau elusennol)
  3. sefydliad corfforedig elusennol
  4. cwmni buddiannau cymunedol
  5. rhan o awdurdod lleol
  6. rhan o brifysgol

- sefydliad sydd â chyfansoddiad/memorandwm ac erthyglau cwmni ysgrifenedig sydd â ffocws ar y celfyddydau

- leiaf bum Ymddiriedolwr/Cyfarwyddwr yn y sefydliad wedi’i gofrestru gyda Thŷ'r Cwmnïau a/neu'r Comisiwn Elusennau erbyn 24 Ebrill 2020 neu Fwrdd Ymgynghori ar gyfer y sefydliadau yna sydd o bosibl dan arweiniad corff statudol (er enghraifft, awdurdod lleol, prifysgol neu'r BBC)

- yn gallu darparu copïau o ddwy flynedd o leiaf o ddatganiadau ariannol (cyfrifon archwiliedig neu'r hyn sy'n cyfateb) i'r sefydliad neu’r awdurdod lleol/Adran Brifysgol) gyda Thŷ'r Cwmnïau a/neu'r Comisiwn Elusennau

- yn gallu dangos hanes o hyrwyddo/rheoli rhaglen o weithgarwch celfyddydol o safon drwy gydol y flwyddyn

b) consortia o sefydliadau, ar yr amod bod pob aelod o'r consortiwm yn bodloni'r meini prawf cymhwysedd uchod”

## Cwestiwn 4

A ydy'r esboniad o flaenoriaethau'r Cyngor yn glir? Os nad ydy, sut byddech chi'n ei wella?

| | | |
|---|---|---|
| Ydy | 52 | 88.1% |
| Nac ydy | 1 | 1.7% |
| Ddim yn siŵr | 5 | 8.5% |
| Dim ateb | 1 | 1.7% |

### Crynodeb

Roedd yr ymateb yn galonogol. Er bod rhai cwestiynau am y blaenoriaethau, roedd y rhan fwyaf yn cytuno eto fod y canllawiau'n gyffredinol glir.

Cyfeiriodd un at yr ystod eang o wybodaeth ategol y cyfeirir ati yn ein canllawiau ("Er budd pawb", "Ysbrydoli", "Ymdrechu i ragori"). Y canllaw cynllunio yw'r casgliad o'r holl wybodaeth angenrheidiol i wneud cais yn yr adolygiad buddsoddi. Ond mae'r dogfennau atodol yn rhoi gwybodaeth ychwanegol a rhestrau gwirio a allai fod o gymorth ichi.

Roedd ymatebwyr nad oeddent wedi ateb "ydy" yn tueddu i ganolbwyntio ar y gwrthddweud rhwng rhagoriaeth artistig a'r uchelgais i gyrraedd pobl fwy amrywiol. Nid ydym ni'n cytuno â'r farn yna.

### Ein hymateb

Rydym ni wedi gweld llawer iawn o enghreifftiau o brosiectau sydd wedi ymrwymo i gyrraedd cynulleidfaoedd newydd a llwyddo i fod o safon. Nid yw'r ddau yn gwrthddweud ei gilydd. Mae cyrraedd cynulleidfaoedd newydd a gwahanol yn aml yn meddwl gweithio mewn ffyrdd gofalus, cymhleth a heriol. Mae hefyd yn gofyn am benderfyniad ymwybodol i fuddsoddi'r amser, yr egni a'r adnoddau angenrheidiol.

Mae llawer o sefydliadau'n credu'n gryf fod cynulleidfaoedd a chyfranogwyr yn haeddu'r gorau. Yn y sefydliadau mwyaf llwyddiannus, mae hyn yn dylanwadu ar y ffordd y maent yn llywodraethu, cynllunio a rheoli eu gweithgarwch.

Dywedodd un ymatebydd "nad yw rhagoriaeth a gwell hygyrchedd yn gwrthddweud ei gilydd". Byddem ni'n cytuno'n llwyr a chredu'n gryf ei bod yn bosibl cyflawni'r ddau. Rydym ni'n gobeithio y gwelwn dystiolaeth o hyn yn y ceisiadau a ddaw. Bydd y sefydliadau sy'n gallu cyflwyno esboniadau darbwyllol o sut i gyrraedd cynulleidfaoedd newydd mewn sefyllfa dda i ddweud eu bod yn adlewyrchu ein blaenoriaethau.

Ein blaenoriaethau corfforaethol – fel y nodir yn y canllawiau – fydd ffocws canolog ein hasesiad o geisiadau. Ond mae ffactorau ychwanegol y bydd angen inni eu hystyried. Mae'n rhaid inni ystyried gallu ac effeithiolrwydd posibl sefydliadau a fydd yn fath o ymarfer diwydrwydd dyladwy. A ninnau'n gorff cenedlaethol, rhaid inni roi barn ar faterion strategol fel dosbarthiad daearyddol sefydliadau a'r mathau o sefydliadau rydym yn eu hariannu. Yn amlwg, mae terfyn ar yr hyn y gallai unrhyw sefydliad unigol ei wneud i effeithio ar ei leoliad neu natur ei weithgarwch. Ond wrth edrych ar holl bortffolio posibl y dyfodol, dyma'r materion y byddwn ni'n eu hystyried wrth wneud penderfyniadau.

Nododd un ymatebydd fod

> "dim ond ychydig am eich safbwynt ar gyrhaeddiad/strategaeth ryngwladol."

Mae'n bwynt teg, ac awn ni ati i'w gywiro. Wrth gwrs, ni fydd gweithgarwch rhyngwladol yn berthnasol, nac yn briodol, i bawb. Ond os ydy, byddem ni'n disgwyl gweld y rhesymeg dros y gweithgarwch sydd yn eich cynllun busnes.

I lawer mae rhesymau creadigol clir dros ddatblygu gweithgarwch rhyngwladol, ac i eraill gall rhagor o sefydlogrwydd ariannol ddibynnu ar sicrhau cyfleoedd busnes ymhellach i ffwrdd. Gall gweithgarwch rhyngwladol gynyddu cyfalaf diwylliannol, codi proffil ac agor marchnadoedd newydd.

Rydym ni'n bendant o'r farn fod y celfyddydau yn gwneud Cymru yn ddeniadol ac yn gyfoes i ni ac y gallant ein gwneud yn unigryw a dymunol i eraill. Mae rhagoriaeth a chreadigrwydd celfyddydau Cymru yn cyfrannu'n bendant at ddatblygu ein cysylltiadau diwylliannol â gweddill y byd. Mae llawer o sefydliadau celfyddydol Cymru yn rhyngwladol bwysig yn eu rhinwedd eu hunain.

## Cwestiwn 5

**A ydy'r broses ymgeisio'n glir? Os nad ydy, sut gallwn ni wneud pethau'n gliriach a haws i'w deall?**

| | | |
|---|---:|---:|
| Ydy | 46 | 78% |
| Nac ydy | 4 | 6.8% |
| Ddim yn siŵr | 8 | 13.6% |
| Dim ateb | 1 | 1.7% |

Roedd ychydig yn llai o gonsensws ynghylch y cwestiwn yma ond roedd dros dri chwarter o ymatebwyr yn glir am y broses ymgeisio.

Roedd y rhai nad oeddent yn meddwl bod y broses yn glir wedi cyfeirio'n bennaf at yr angen am wybodaeth sy'n fwy ymarferol – er enghraifft, sut i ddod o hyd i'r ffurflen gais. Byddwn ni'n egluro hyn yn y ddogfen derfynol.

Cwestiynodd eraill y ffaith ein bod ni'n bwriadu gofyn am ffurflen gais a chynllun busnes. Mewn arolygon o sefydliadau sydd wedi bod yn rhan o adolygiadau blaenorol rydym ni'n deall bod sefydliadau yn croesawu'r cyfle i ateb cwestiynau penodol drwy ffurflen gais strwythuredig a chael y cyfle i ddisgrifio eu cynlluniau a'u huchelgais â rhagor o ryddid drwy eu cynlluniau busnes.

Gofynnodd un ymatebydd:

> "A oes angen i'r cynllun busnes sy'n mynd gyda'r cais fod yn un sy'n cefnogi'r cais neu'r cynllun busnes tair blynedd presennol a fydd wedyn yn cael ei ddiweddaru i gefnogi'r cais yn Hydref (yn ôl yr amserlen arferol) a phryd byddwn ni'n gwybod beth yw'r penderfyniad?"

Yn ein barn ni, dim ond gydag un cynllun busnes y dylai sefydliad weithio. Mae'n offeryn ymarferol i'r sefydliad lywio a rheoli ei waith. Ni fyddem ni'n annog ar unrhyw gyfrif lunio cynllun busnes ar wahân ddim ond i gyflwyno'r achos dros gefnogi cais am arian. Wedi dweud hynny, os yw sefydliad yn dymuno diweddaru neu ddiwygio ei gynllun busnes cyn i'r cais gael ei wneud, mater i'r sefydliad fyddai hynny.

Ond mae gofyn am y ddwy ddogfen yn codi materion ymarferol wrth asesu ceisiadau. Yn y gorffennol, rydym ni weithiau wedi gweld bod ymgeisydd wedi rhoi darn allweddol o wybodaeth yn y cynllun busnes yn hytrach na'i gynnwys yn y ffurflen gais. Os byddwch chi'n dibynnu ar gynnwys sydd yn eich cynllun busnes i ateb cwestiwn ar y ffurflen gais, cyfeiriwch ato'n glir i osgoi dryswch. Heb y cyfeiriadau clir yma, efallai bydd eich cais yn aneglur. Rydym ni am fod yn siŵr ein bod yn edrych ar y wybodaeth sydd, yn eich barn chi, yn cefnogi eich cais orau.

## Ein hymateb

Bydd y broses yn seiliedig, fel o'r blaen, ar ddwy ddogfen allweddol: ffurflen gais ar-lein a'ch cynllun busnes diweddaraf. Nid ydym ni'n bwriadu gofyn ichi ddarparu unrhyw beth arall heblaw'r ddwy ddogfen yma. Ond os mai ymgeisydd newydd ydych, efallai bydd raid inni gael gwybodaeth ychwanegol oddi wrthych.

Byddwn ni'n sicrhau bod nodiadau cymorth y broses yn glir am sut i gyfeirio at wybodaeth (a byddwn ni'n nodi'r wybodaeth sydd ei hangen arnom).

Gofynnodd rhai inni ailystyried ein disgrifiadau o'r celfyddydau, gan ychwanegu ffilm at y rhestr. Gwnawn ni hynny.

## Cwestiwn 6

**A ydych chi'n deall y broses asesu a phenderfynu rydym ni'n bwriadu ei mabwysiadu? Sut gallwn ni ei gwella?**

| | | |
|---|---|---|
| Ydw | 48 | 81.4% |
| Nac ydw | 3 | 5.1% |
| Ddim yn siŵr | 6 | 10.2% |
| Dim ateb | 2 | 3.4% |

### Crynodeb

Ar y cyfan, roedd pobl yn deall y broses asesu a phenderfynu.

Roedd y rhai a atebodd "nac ydw" i'r cwestiwn yn disgyn ar y cyfan i dri chategori:

1. Y rhai a oedd am wybod pwy sy'n gwneud y penderfyniadau terfynol

2. Y rhai a oedd yn ansicr o'n blaenoriaethau, a sut y byddem ni'n eu defnyddio i asesu ceisiadau

3. Y rhai a ofynnodd am ragor o wybodaeth am ran bosibl y Cydweithwyr Celfyddydol yn y broses

### Ein hymateb

Aelodau o'n Cyngor fydd yn gwneud y penderfyniadau terfynol. Bydd swyddogion y Cyngor yn asesu a chynghori, ond y Cyngor fydd yn penderfynu.

Mae ein canllawiau cynllunio yn ceisio cyfleu ymdeimlad clir o'r pwys a roddwn ni ar ddwy brif flaenoriaeth ein cynllun corfforaethol, "Er budd pawb":

1. Hyrwyddo cydraddoldebau fel sylfaen ar gyfer ymrwymiad clir i ymestyn yn ehangach ac yn ddyfnach i bob cymuned yng Nghymru

2. Cryfhau gallu a gwytnwch y sector, gan alluogi talent greadigol i ffynnu

Estyn allan i gynulleidfaoedd newydd yw neges allweddol yr adolygiad buddsoddi. Mae digon o dystiolaeth i ddangos nad yw cyfleoedd i fwynhau'r celfyddydau a ariennir yn gyhoeddus a chymryd rhan ynddynt i'w cael yn gyfartal ar draws holl bobl Cymru. Ac mae'n parhau i fod yn wir fod y celfyddydau'n parhau'n gysylltiedig â'r garfan fwyaf cyfoethog, fwyaf addysgedig a lleiaf amrywiol o'r boblogaeth. Rydym ni'n falch bod y rhai

sydd eisoes yn cefnogi'r celfyddydau yn gwneud hyn mor frwdfrydig. Ond ni all fod yn iawn fod cynifer o bobl yn teimlo nad ydynt yn cael eu cynnwys mewn gweithgareddau a ariennir gan y cyhoedd.

Ond nid yw hyn yn golygu tanseilio ein hymrwymiad i gefnogi'r celfyddydau o safon sy'n ein difyrru ond eto'n ein herio. Byddwn ni'n edrych eto ar ein canllawiau i sicrhau bod hyn yn cael ei egluro'n glir.

Rydym ni'n cytuno â phryderon rhai am ymwneud y Cydweithwyr Celfyddydol â'r adolygiad. Credwn ni fod gwerth mewn trafod gyda nhw y broses gyffredinol ac agweddau strategol. Ond ni fydd Cydweithwyr Celfyddydol yn cynnig sylwadau ar gais unrhyw sefydliad, nac yn ei asesu. Cyfrifoldeb y Cyngor a'i swyddogion ydyw.

Roedd rhai ymatebwyr yn pryderu am degwch y broses - pa mor hawdd fyddai i sefydliadau nad ydynt yn y portffolio gyflwyno eu hachos ochr yn ochr â sefydliadau sydd eisoes yn y portffolio.

## Ein hymateb

Byddwn ni'n ystyried pob sefydliad unigol yn ôl ei rinweddau ei hun. Bydd hanes o lwyddo ac enw da wrth gwrs yn effeithio ar ein hasesiad. Os yw sefydliad wedi gweithio ym maes y celfyddydau yng Nghymru, byddwn ni wedi clywed amdano. Ac rydym ni'n arbennig o awyddus i edrych ymlaen at botensial y dyfodol.

Byddwn ni'n asesu'n ofalus eich cynlluniau at y dyfodol gan ofyn nifer o gwestiynau:

- A ydy'r cynigion yn bodloni ein blaenoriaethau?
- A ydy'r cynigion yn ymddangos yn realistig o ystyried y ffurflen gais/cynllun busnes?
- A ydy'r hanes o lwyddo'n ein hargyhoeddi o allu'r sefydliad i gyflawni'r cynigion?

Gofynnodd ymatebydd arall:

"Beth yw eich cyngor am gydweithio? Nid oes digon o eglurder. A fyddai'n well gennych gefnogi sefydliadau unigol neu gydweithio newydd ar draws rhanbarthau?"

## Ein hymateb

Mae gennym feddwl agored am y ceisiadau a ddaw. Weithiau gall fod rhesymau artistig ac ariannol da i ddau neu fwy o sefydliadau gydweithio, yn enwedig lle mae'n gwneud defnydd gwell o’r arian. Gall cydweithio fod ar sawl ffurf, o bartneriaeth lac i uniad ffurfiol. Mae gennym ddiddordeb mewn gweld a oes posibiliadau am ragor o gydweithio. Ond rhaid i delerau cydweithio fod yn glir a dylai pawb gydweithio o’i wirfodd. Nid yw gorfodi pobl i gydweithio’n lles i neb - yn artistig nac yn ariannol.

## Cwestiwn 7

**A ydy'r amserlen, a'r dyddiadau allweddol ynddi, yn glir? A ydy’n glir beth fydd yn digwydd ym mhob cam o'r broses?**

| | | |
|---|---|---|
| Ydynt | 54 | 91.5% |
| Nac ydynt | 1 | 1.7% |
| Ddim yn siŵr | 2 | 3.4% |
| Dim ateb | 2 | 3.4% |

## Crynodeb

Roedd yr ymateb yn hynod gadarnhaol. Felly, ni fyddwn ni’n newid amseriad y broses ymgeisio. Ond byddwn ni’n cymryd ychydig ddiwrnodau'n hwy i drefnu a chynllunio cyhoeddi ein penderfyniadau. Erbyn hyn bydd yn digwydd fwy na thebyg yn ystod wythnos gyntaf Hydref 2020.

## Ein hymateb

Bydd y dyddiad newydd i gyhoeddi aelodau o’r portffolio newydd yn symud i wythnos gyntaf mis Hydref 2020. Mae'r dyddiadau eraill yn aros yr un fath.

## Cwestiwn 8

**A oes unrhyw wybodaeth ar goll o'r canllawiau cynllunio y dylid ei chynnwys? A oes gennych unrhyw sylwadau eraill?**

| | | |
|---|---|---|
| Oes | 16 | 27.1% |
| Nac oes | 30 | 50.8% |
| Ddim yn siŵr | 8 | 13.6% |
| Dim ateb | 5 | 8.5% |

### Crynodeb

Roedd dros eu hanner o'r farn nad oedd angen rhagor o wybodaeth arnynt. Gyda materion eraill, mae'r rhain wedi cael eu hateb, neu byddant yn cael eu hateb, rywle arall yn y ddogfen yma.

Holodd rhai ynghylch pa wybodaeth ychwanegol y gallai fod arnom ei hangen a sut y gallent gyflwyno hyn. Byddwn ni'n nodi'n glir yn y canllawiau terfynol yr holl wybodaeth y bydd ei hangen arnom. Ond ar y cyfan dylid cynnwys eich gwybodaeth allweddol yn y ddwy ddogfen rydym ni'n gofyn amdanynt: y ffurflen gais a'r cynllun busnes. Mae'r ffordd rydych chi'n esbonio a chyflwyno'r wybodaeth yn fater ichi ei benderfynu.

Anaml iawn y gwelwn lythyrau o gefnogaeth sy'n fwy na chanmoliaeth wresog. Mae eu defnydd felly'n gyfyngedig. Wedyn ni fyddwn ni'n annog pobl i'w cynnwys, oni bai eu bod yn dod oddi wrth bartneriaid ariannu sy'n cadarnhau lefelau cymorth yn y dyfodol.

Roedd nifer o sylwadau am ymdrin â'r senarios ariannol gwahanol. Eto, byddem ni'n annog sefydliadau i ystyried yn ofalus faint o arian y byddant yn gofyn amdano i wneud y gwaith yn eu ffurflen gais. Mae'n hanfodol bod y cais yn rhesymol a phwyllog a bod y costau yn eich cyllideb yn glir.

### Ein hymateb

Mae'r canllawiau cynllunio'n nodi:

"Efallai na fyddwn ni'n gallu eich ariannu ar y lefel rydych chi wedi gofyn amdani ac mewn rhai achosion efallai y byddwn ni'n ystyried lleihau'r arian rydym ni'n ei roi. Dylech chi ddangos yn glir oblygiadau cael llai o arian a lefelau realistig y gweithgarwch y gallech chi eu cynnig gyda llai. Efallai y bydd yn syniad dangos y senarios yma yn eich cynllun busnes. Eich cyfrifoldeb chi yw nodi'n glir y gweithgarwch a fydd yn digwydd o ganlyniad i hynny."

Dylai aelodau presennol o’r portffolio ofyn am gynnydd ariannol dim ond lle gallant nodi'n glir newid mawr yn y ffordd y bydd eu gwaith yn cyflawni uchelgais a blaenoriaethau ein cynllun corfforaethol. Dylech chi ddangos effaith unrhyw leihad ar eich grant yn eich cynllun busnes. Heb y wybodaeth yma efallai na fyddwn ni’n gallu penderfynu ar eich cais.

Rhaid i’r cyngor a roddwn ni fod mor glir a phenodol â phosibl. Byddwn ni’n sicrhau bod ein nodiadau cymorth yn egluro’r materion a ddaeth i law. Pan fydd gennych gwestiynau eto, bydd cyfle ichi eu gofyn drwy e-bost. Caiff yr atebion eu cyhoeddi ar dudalen adolygiad buddsoddiad ein gwefan.

Holodd rhai am ein diddordeb mewn materion amgylcheddol a chynaliadwyedd. A ninnau’n cefnogwr brwd o ddeddfwriaeth llesiant Llywodraeth Cymru, rydym ni o blaid cymryd cyfrifoldeb amgylcheddol. Byddem ni’n gweld hyn fel rhan annatod o gynllun busnes unrhyw sefydliad sy'n edrych tuag at y dyfodol.

Holodd eraill am yr agwedd ymarferol ar ymgeisio a sut i gael gafael ar ein ffurflen gais ar-lein. Caiff hyn ei egluro yn ein canllawiau ymgeisio terfynol fydd ar gael drwy ein gwefan.

# 3. Ffurflen gais

## Cwestiwn 9

**A ydy'r cwestiynau ar y ffurflen gais yn glir? Nodwch unrhyw adrannau aneglur gan awgrymu sut i'w gwella.**

| | | |
|---|---|---|
| Ydynt | 46 | 78% |
| Nac ydynt | 4 | 6.8% |
| Ddim yn siŵr | 8 | 13.6% |
| Dim ateb | 1 | 1.7% |

### Crynodeb

Roedd yr ymateb yn gadarnhaol ond roedd llai o atebion ‘ydynt’ na chyda chwestiynau eraill.

Roedd dau brif gwestiwn.

Y cyntaf oedd am faterion ystadegol. Cwestiynodd rhai y defnydd o amcangyfrifon rhifol neu ganrannol o ran ardal neu nodweddion gwarchodedig yn enwedig pan allai’r rhain newid o flwyddyn i flwyddyn. Rydym ni’n gwybod nad yw hyn yn rhywbeth y gellid bob amser fod yn hollol gysáct yn ei gylch, felly gofynnwn ni i ymgeiswyr arfer eu doethineb a darparu crynodeb sy’n cynrychioli cyrhaeddiad ac effaith eu gwaith.

Dylai’r lleoliad yn y cais fod y lleoliad lle mae’r gweithgarwch yn digwydd. Yma gofynnwn ni ichi wneud penderfyniad ymarferol am leoliadau tebygol eich gwaith yn 2021/22.

Yr ail oedd am sut i nodi'r newid mewn gweithgarwch pe bai llai o arian yn cael ei gynnig. Mae’r ateb yn gynharach yn y ddogfen yma.

### Ein hymateb

Dylai ymgeiswyr amcangyfrif yn ddoeth effaith eu gwaith ar wahanol ardaloedd ac ystyried gwaith sy’n targedu pobl â nodweddion penodol.

O ran y sylwadau eraill, mae’r atebion yn y ddogfen yma neu bydd yr atebion yn y nodiadau cymorth.

## Cwestiwn 10

**Mae ein cynllun corfforaethol yn cyfeirio at bwysigrwydd cydraddoldeb a chyrraedd yn ehangach ac yn ddyfnach i bob cymuned yng Nghymru. Mae hyn yn cynnwys darpariaeth drwy'r Gymraeg. A ydych chi'n glir am y wybodaeth angenrheidiol?**

| | | |
|---|---|---|
| Ydw | 50 | 84.7% |
| Nac ydw | 5 | 8.5% |
| Ddim yn siŵr | 3 | 5.1% |
| Dim ateb | 1 | 1.7% |

### Crynodeb

Roedd bron 85% yn nodi bod y wybodaeth yn glir. Dywedodd un:

> **"Mae'r blaenoriaethau corfforaethol yn glir iawn. Rydym ni hefyd yn defnyddio'r blaenoriaethau Llesiant ac mae'n hawdd gweld sut mae hyn yn gweithio gyda blaenoriaethau ariannu'r Cyngor a rhai gwasanaethau llywodraeth leol."**

Y prif gŵyn yma oedd diffyg cwestiwn penodol a oedd yn canolbwyntio ar sut roedd sefydliadau yn datblygu gweithgarwch Cymraeg. Yn ein barn ni mae'r Gymraeg yn hanfodol. Felly, rydym ni'n o'r farn y byddai'n cael ei chynnal ar draws pob agwedd ar waith unrhyw sefydliad a'i hadlewyrchu yn y ffurflen gais. Ar ôl myfyrio ar y mater, rydym ni wedi dod i'r casgliad ei bod yn bwysig i ymgeiswyr gael cyfle i nodi eu dull gweithredu'n benodol yn y maes hynod bwysig yma.

### Ein hymateb

Byddwn ni'n ychwanegu at y ffurflen gais gwestiwn penodol am y Gymraeg. Byddem ni hefyd yn argymell bod aelodau o'r portffolio yn defnyddio ein pecyn cymorth dwyieithog (sydd ar ein gwefan) i'w helpu i gyflwyno gwaith drwy gyfrwng y Gymraeg a'r Saesneg.

Roedd sylw arall am weithgareddau a geisiai dargedu pobl â nodweddion gwarchodedig. Mae'r geiriad a ddefnyddir yn adlewyrchu'r Ddeddf Cydraddoldeb (2010). Os ydych chi'n teimlo bod meysydd eraill o'ch gwaith yr hoffech chi dynnu sylw atynt, gwnewch hynny.

Rydym ni hefyd wedi cywiro ein model anabledd presennol. Rydym ni wedi ei ddiwygio i adlewyrchu'r model cymdeithasol o anabledd sy'n cynnig fframwaith mwy priodol i fynd i'r afael â'r materion yma.

## Cwestiwn 11

**A oes unrhyw wybodaeth ar goll o'r ffurflen? A oes gennych unrhyw sylwadau pellach?**

| | | |
|---|---|---|
| Oes | 20 | 33.9% |
| Nac oes | 25 | 42.4% |
| Ddim yn siŵr | 12 | 20.3% |
| Dim ateb | 2 | 3.4% |

### Crynodeb

Roedd yr atebion yma ychydig yn fwy cymysg.

Roedd y rhan fwyaf o'r ymatebion yma am bynciau sy’n cael eu trafod rywle arall yn y ddogfen. Ond roedd cwestiwn newydd am roi pwysoliad penodol i gwestiynau wrth eu hasesu.

### Ein hymateb

Dydym ni ddim yn bwriadu rhoi pwysoliad ar atebion na’u sgorio. Mae'r gwerthfawrogiad o’r celfyddydau wrth ei natur yn oddrychol ac yn gymhleth iawn. Wrth inni ystyried rhwydwaith cenedlaethol posibl o weithgarwch celfyddydol - mawr a bach, lleol a rhyngwladol - fydd ar gael drwy gyfrwng ein dwy iaith, rhaid inni gyrraedd barn gytbwys a gofalus. Nid yw adio sgorau at ei gilydd yn ffordd ddelfrydol o wneud hynny.

Byddwn ni’n defnyddio'r holl wybodaeth sydd ar gael inni, yn ogystal ag arbenigedd ein Cyngor a'n staff, i lunio barn gytbwys am yr holl bortffolio newydd. Mae rhagor o wybodaeth (er nad yw'n rhestr gynhwysfawr) am y mathau o agweddau y byddwn ni’n eu hystyried yn ein canllawiau cynllunio.

## Cwestiwn 12

**A ydy'n glir sut, ac am ba resymau, y gallwch chi wneud apêl?**

| | | |
|---|---|---|
| Ydy | 51 | 86.4% |
| Nac ydy | 4 | 6.8% |
| Ddim yn siŵr | 3 | 5.1% |
| Dim ateb | 1 | 1.7% |

## Crynodeb

Ychydig iawn o ymatebion penodol oedd yma. Ond roedd canran ddigonol o bobl a ddeallai'r maes. Roedd un yn nodi: "Rwy'n credu y gellid gwneud hyn yn gliriach". Ond nid oedd esboniad pellach am beth oedd yn aneglur, felly nid ydym ni'n gallu ymateb.

Gofynnodd un arall am y math o adborth a geir a chwestiwn un arall oedd a fydd yr ymgeiswyr llwyddiannus yn cadw eu lefelau presennol o arian.

## Ein hymateb

Byddwn ni'n asesu pob cais cymwys ac anfon adborth ysgrifenedig am yr asesiad at bob sefydliad unigol wrth gyhoeddi'r penderfyniadau terfynol.

Nid ydym ni eto wedi penderfynu am lefelau ariannu'r dyfodol cyn cynnal yr adolygiad buddsoddi. Nid oes sicrwydd y bydd y sefydliadau yn y portffolio presennol sy'n cael parhau yn cadw'r un lefel o arian.

Efallai y bydd newidiadau mewn cwmni (er enghraifft, canolbwyntio ar lefel lai o weithgarwch) sy'n meddwl bod angen llai o arian. Ond fel rheol, mae'n annhebygol y byddwn ni'n cynnwys sefydliad yn y portffolio newydd dim ond i leihau eu harian i lefel lle na allai gweithgareddau'r sefydliad barhau.

## Cwestiwn 13

A ydy'r amserlen a'r broses ar gyfer apelio'n glir?

| | | |
|---|---:|---:|
| Ydynt | 52 | 88.1% |
| Nac ydynt | 2 | 3.4% |
| Ddim yn siŵr | 4 | 6.8% |
| Dim ateb | 1 | 1.7% |

## Crynodeb

Awgrymodd dau ymatebydd fod yr amser ar gyfer gwneud apêl yn rhy fyr (21 diwrnod). Yn anffodus, i sicrhau bod digon o amser yn amserlen ein hadolygiad, dyma'r amser lleiaf sydd ei angen arnom. I broses briodol a thrylwyr ddigwydd cyn diwedd y flwyddyn ariannol, rhaid aros gyda'r dyddiadau fel y maent.

Cwestiynodd un arall ein gofyniad am i aelodau presennol y portffolio gyflwyno cynlluniau busnes yn ôl yr amserlen arferol.

Byddem ni’n disgwyl y byddai holl aelodau presennol y portffolio eisoes yn cynnwys y posibilrwydd o golli eu harian yn eu cynllun busnes, a bod ganddynt gynlluniau ar waith i reoli posibilrwydd o'r fath.

Rydym ni’n cydnabod y byddai’n sefyllfa heriol ond mae’n rhan bwysig o unrhyw broses gynllunio yn y byd sydd ohoni. Bydd symud yn gyflym i addasu i fodel newydd o weithio yn hanfodol i'r sefydliadau yma, a bydd arian pontio ar gael oddi wrthym i gefnogi’r newid.

## Ein hymateb

Roeddem yn falch bod mwyafrif y sefydliadau wedi deall egwyddorion proses yr adolygiad.

Pan fo angen eglurhad, caiff hyn ei gyflwyno. Ond rydym ni’n falch nad yw'n ymddangos bod angen gwneud newidiadau sylfaenol i ddogfennau allweddol yr adolygiad.

## Cwestiwn 14

A oes gennych unrhyw sylwadau eraill am y broses apelio neu sut i’w gwella?

| | | |
|---|---|---|
| Oes | 7 | 11.9% |
| Nac oes | 47 | 79.7% |
| Ddim yn siŵr | 2 | 3.4% |
| Dim ateb | 3 | 5.1% |

## Crynodeb

Ni chafwyd unrhyw sylwadau yma nad ymdriniwyd â nhw rywle arall yn y ddogfen yma.

# 4. Sylwadau Cyffredinol

## Cwestiwn 15

A oes gennych unrhyw sylwadau eraill am yr adolygiad?

### Crynodeb

Cafwyd nifer fawr o ymatebion i'r adran yma. Er bod nifer o'r pwyntiau yn themâu sy'n codi'n fynych ac a drafodwyd eisoes, cododd rhai newydd:

*"Mae hyn yn bendant yn symud tuag at gyflawni nodau Llywodraeth Cymru ond nid nodau artistiaid. Roeddwn o'r farn mai arian i'r bobl oedd arian y Loteri Genedlaethol ac nid arian i wneud yn iawn am danwariant y Llywodraeth."*

### Ein hymateb

Y Cyngor sy'n penderfynu yn yr adolygiad, yn annibynnol o fewnbwn gan Lywodraeth Cymru. Y fframwaith i'r penderfyniadau fydd cynllun corfforaethol y Cyngor, "Er budd pawb".

Llywodraeth Cymru yw'r corff democrataidd sy'n darparu'r cyd-destun cyffredinol ar gyfer gwariant cyhoeddus yng Nghymru, gan gynnwys y Loteri Genedlaethol. Fel corff "hyd braich" y mae Llywodraeth Cymru yn trin y Cyngor.

Ond nid yw'n afresymol i Lywodraeth Cymru annog y Cyngor i ystyried ei flaenoriaethau wrth ddosbarthu bron i £30 miliwn o arian y cyhoedd a'r trethdalwyr i'r portffolio bob blwyddyn.

Mae ein blaenoriaethau'n mynd i'r afael ag anfantais greadigol, gymdeithasol ac ariannol ac â chanlyniadau tlodi diwylliannol. Mae'r rhain yn flaenoriaethau brys inni.

"Weithiau mae ansawdd y cysylltiad yr un mor bwysig â nifer y bobl sy'n dod. Byddai'n hawdd dweud bod 20 miliwn o bobl wedi cerdded drwy rywle, ond a ydy'r cysylltiad wedi cael unrhyw effaith ar eu bywyd? Byddai'n fwy dewr i'r Cyngor benderfynu ar ei flaenoriaethau a nodi pa gyrff sy'n deilwng o arian yn hytrach nag agor y broses i unrhyw un ymgeisio."

## Ein hymateb

Rydym ni’n anghytuno â rhan olaf y sylw uchod.

Mae proses yr adolygiad wedi'i chynllunio i fod yn agored a thryloyw, gan roi gwir gyfleoedd i sefydliadau gyflwyno achos dros gael arian. Nid yw'r celfyddydau byth yn sefyll yn eu hunfan – maent yn tyfu, datblygu ac esblygu. Dylai ein harian adlewyrchu hynny. Ac os ydym am ehangu hygyrchedd i gelfyddydau Cymru, mae angen inni fod yn barod, ac yn ddigon dewr, i ystyried ystod ehangach o sefydliadau nag o’r blaen.

> "Rydym ni’n deall yr angen i amrywio sylfaen ariannu sefydliadau celfyddydol, ac rydym ni wedi bod yn gweithio'n galed i gyflawni hyn drwy ymddiriedolaethau a nawdd personol, ond rydym ni’n parhau (fel sefydliadau eraill) i fod yn ddibynnol iawn ar arian y Cyngor ac yn debygol o barhau felly.
>
> Mae angen ichi ddeall nad yw lefel yr arian sydd ar gael gan ymddiriedolaethau a thrwy nawdd, yn enwedig mewn siroedd gwledig, yn debygol o’n digolledu pan ddaw toriadau i'r sector. Rhaid i'ch penderfyniadau fod yn strategol a phwyllog gan werthfawrogi gwaith y portffolio presennol a'u potensial i ehangu eu cynnig gyda'ch cefnogaeth."

## Ein hymateb

Rydym ni’n deall y cyd-destun ariannu ac anawsterau’r sefydliadau celfyddydol o ran cael arian o ffynonellau eraill. Gwyddom ei fod yn anodd, yn enwedig i sefydliadau llai mewn ardaloedd gwledig.

Wedi dweud hynny, ni allwn anwybyddu'r cyd-destun economaidd ehangach a'r pwysau parhaus ar arian cyhoeddus. Mae'n debygol y byddai angen i'n portffolio weithio gyda ni i ddod o hyd i ffynonellau eraill o incwm ac mae hyn yn debygol o gynnwys ffyrdd newydd o weithio yn y dyfodol. Rydym ni’n gwybod bod y gallu i wneud hyn yn amrywio ar draws y sector, ond mae'n debyg y bydd angen i bob sefydliad ddangos sut y bydd yn symud i'r cyfeiriad yma fel rhan o'i gais i’r adolygiad.

> "Mae creu cipolwg o ystod a dyfnder y gwaith creadigol mewn ffurflen gais yn amhosibl. Felly dylai staff ac ymgynghorwyr sy'n asesu ceisiadau fod yn ymwybodol o waith a chyflawniadau'r ymgeiswyr dros y blynyddoedd diwethaf."

## Ein hymateb

Er bod gwybodaeth y swyddogion yn rhan o'n proses asesu, mae'n bwysig cydnabod y gallai ein huchelgais i gael aelodau newydd i ymuno â'r portffolio olygu bod gennym lai o wybodaeth uniongyrchol am rai sefydliadau.

Felly ni ddylai ymgeiswyr gymryd yn ganiataol fod gennym wybodaeth benodol a dylent sicrhau bod y wybodaeth angenrheidiol yn y cais.

> "Y gwir yw nad oes gan sefydliadau celfyddydol bach y gallu i ryddhau aelodau o staff i ganolbwyntio'n llawn ar y darn o waith sydd ei angen (fel y gall sefydliadau mwy) a pharhau i gwrdd â thargedau presennol a rhedeg y sefydliad.
>
> *Dwi'n gwybod bod y sefydliadau mwy yn cael mwy o arian, ond dyna'r broblem, yn fy marn i. Nid wyf yn siŵr beth yw'r ateb i hyn, efallai ffordd o weithio gyda haenau gwahanol? Ond byddai croeso i'ch cydnabyddiaeth bod y broses yma'n fwy anodd, o ran amser a chapasiti, i sefydliadau llai."*

## Ein hymateb

Rydym ni wedi ystyried y posibilrwydd o fabwysiadu ffordd o weithio gyda haenau gwahanol ond mae'n bwysig trin pob sefydliad yn gyson. Rydym ni'n cydnabod bod gan sefydliadau bach lai o adnoddau na chwmnïau mwy. Byddwn ni'n mabwysiadu ymagwedd ymarferol a realistig wrth ystyried ystod y ceisiadau gwahanol.

Ond rhaid i bob ymgeisydd llwyddiannus ddangos inni sut y byddant yn cyflawni ein blaenoriaethau corfforaethol, ni waeth beth fo'u maint na lefel eu harian.

> "Mae'n bosibl na fydd uchafswm o 500 gair yn ddigon i rai adrannau."

## Ein hymateb

Byddwn ni'n annog atebion cryno i bob cwestiwn gan ganolbwyntio ar y wybodaeth berthnasol. Ond rydym ni wedi adolygu uchafsymiau'r geiriau mewn rhai adrannau a diweddaru'r ffurflen gais o ganlyniad.

"Mae’r adolygiad yn nodi y bydd cytundebau ariannu blynyddol yn cael eu cynnig, fel arfer. Cymru yw'r unig le ym Mhrydain sy'n cynnig llai na 3 blynedd o arian, ac mae diffyg arian hirdymor yn llesteirio'r broses o fentro, cynllunio cylched hwy o gynhyrchu a theithio a gwneud cytundebau ag arianwyr allanol sy'n gwneud ymrwymiadau aml-flwyddyn. Yn Lloegr, er enghraifft, mae cytundebau 4 blynedd ar waith, er bod holl sefydliadau portffolio Cyngor Celfyddydau Lloegr yn gwybod bod peryglon yn y flwyddyn y bydd llai o arian gan y Llywodraeth."

## Ein hymateb

Mae ein cynigion ariannol yn gysylltiedig â'n setliad ariannu ein hunain gan Lywodraeth Cymru ac ni allwn ni gynnig arian y tu hwnt i’r cyfnod sydd wedi'i gadarnhau. Pe bai hyd ein setliad ariannu ein hunain yn newid, byddem ni’n sicr yn ystyried cynnig ymrwymiadau hwy.

"Rwy'n gobeithio am ddewrder, am ychwanegiadau newydd i helpu'r ddarpariaeth mewn celfyddydau sydd ar hyn o bryd yn cael eu tangynrychioli yn y portffolio (dawns, cerddoriaeth newydd); rwy'n gobeithio y bydd datblygu artistiaid wedi'i lwyr ymgorffori."

## Ein hymateb

Y blaenoriaethau yn ein cynllun corfforaethol, "Er budd pawb", yn gosod y dasg inni o archwilio'n feirniadol yr hyn y gallai portffolio newydd ei gynnig o ran cyrhaeddiad a hygyrchedd.

Rydym ni hefyd yn ymwybodol o'r angen i edrych ar wahanol fathau o ddarpariaeth gelfyddydol ledled Cymru. Mae hyn yn amlwg yn agor y posibilrwydd y bydd newydd-ddyfodiaid ym mhob math o gelfyddyd yn dangos gwir allu i gyflawni ein blaenoriaethau.

Roeddem ni’n falch o gael sylwadau gan Gadeirydd Pwyllgor Diwylliant, y Gymraeg a Chyfathrebu yng Nghynulliad Cenedlaethol Cymru. Atgoffodd y Cadeirydd ni o adroddiad pwysig y Pwyllgor am botensial y celfyddydau i fynd i'r afael â phroblemau tlodi, "Minnau hefyd!".

Fel y noda'r adroddiad:

> **"Rydym ni'n gwybod y gall y sgiliau y mae pobl yn eu hennill o gymryd rhan mewn gweithgarwch creadigol eu helpu i ddatblygu sgiliau a all wella eu sefyllfa gyffredinol. Gwyddom hefyd y gall cyfranogi o'r celfyddydau liniaru ar effeithiau tlodi ac allgáu cymdeithasol. Dyma pam ei bod mor bwysig sicrhau bod ein bywyd diwylliannol yn cynnwys pawb."**

[Minnau hefyd! Rôl y celfyddydau a diwylliant wrth fynd i'r afael â thlodi ac allgau cymdeithasol, tudalen 5 https://www.assembly.wales/laid%20documents/cr-ld12847/cr-ld12847%20-w.pdf ]

Mae'r adroddiad yn cyfeirio dau argymhelliad at sylw'r Cyngor:

- Dylai'r Cyngor sicrhau bod pob aelod o'i bortffolio (ei sefydliadau sy'n cael arian refeniw) yn gweithio gyda'r gwahanol gymunedau y maent yn eu gwasanaethu i gynllunio eu rhaglen o weithgareddau

- Dylai Llywodraeth Cymru, drwy'r Cyngor, ei gwneud yn ofynnol i bob corff celfyddydol a diwylliannol sy'n cael arian cyhoeddus nodi eu hamcanion ar gyfer mynd i'r afael â thlodi ac allgáu cymdeithasol yn eu cynllun strategol. Dylai'r rhai sy'n cael arian hefyd nodi sut y maent yn bwriadu cydgynllunio gweithgareddau creadigol â'r cynulleidfaoedd targed hyn.

## Ein hymateb:

Cytunwn yn llwyr â barn y Pwyllgor fod sefydliadau sy'n gweithio gyda chymunedau lleol o'r cychwyn yn deg yn fwy tebygol o ymgysylltu'n llwyddiannus â'r cymunedau yna o ran mynychu gweithgareddau artistig a chymryd rhan ynddynt.

Y sefydliadau celfyddydol mwyaf creadigol yw'r rhai dan arweiniad celfyddydol ond sy'n canolbwyntio ar y gynulleidfa. Maent hefyd wedi ymrwymo i gyrraedd cynulleidfaoedd newydd, gwahanol a mwy amrywiol, gan weithio gyda nhw i fynd i'r afael â'r rhwystrau sy'n atal pobl rhag cael hygyrchedd i'r celfyddydau.

Byddwn ni'n sicrhau bod y materion yn "Minnau hefyd!" yn cael eu hadlewyrchu'n glir yng nghanllawiau cynllunio'r adolygiad.

Byddwn ni'n disgwyl i'n portffolio weithio ar y cyd â'u cymunedau a sicrhau yr ymdrinnir yn benodol â thlodi diwylliannol ac allgáu cymdeithasol yn eu gweithgareddau yn y dyfodol.

Gofynnodd rhai am gysylltu â swyddogion y Cyngor yn ystod cyfnod yr adolygiad a hyd yn oed a ellid gofyn i swyddogion roi cyngor ar geisiadau drafft. Cyn belled ag y bo modd, rydym ni'n awyddus i'r cysylltiad rhyngom aros fel y mae fel arfer, yn enwedig pan fydd gennych berthynas â swyddog arweiniol yn y Cyngor.

Gall swyddogion hefyd roi cyngor am broses yr adolygiad, er na allwn ni drafod neu adolygu manylion cais unigol. (Yn anffodus, gyda dros 100 o geisiadau i ddod, byddai hyn yn anymarferol.) Weithiau mae cyngor y swyddogion – hyd yn oed cyngor hollol ddidwyll – yn gallu cael ei gamddehongli. Mae'n bwysig bod pob ymgeisydd yn cael ei drin yn deg ac nad oes neb yn cael mantais annheg o ran gallu rhoi cynnig ar syniadau.

Roedd rhai sylwadau'n croesawu ein dogfen – dyma grynodeb ohonynt:

> "dyma fydd yr adolygiad buddsoddi cyntaf imi fod yn rhan ohono, roeddwn i'n ei ofni ond erbyn hyn mae'n glir iawn – felly, diolch. Gobeithio fy mod yn dal i deimlo fel hyn pan ddaw hi at amser cyflwyno'r gwaith papur!"
>
> "Rwy'n falch o weld y Cyngor yn ystyried cyrhaeddiad y gwaith a ariennir."
>
> "Mae'n teimlo'n glir iawn ac mae'n teimlo fel bod y ffurflen gais yn ategu'r cynllun busnes fel y dogfennau cais. Mae'n bwysig bod y ffurflen gais yn rhoi'r cyfle i siarad yn fanylach am yr hyn y mae'r cynllun busnes yn ei gyflwyno."
>
> "Mwy o ffocws a chliriach nag un 2015"
>
> "Mae'n amlwg bod y Cyngor wedi gwrando ar y sector ac wedi dysgu o weithdrefnau blaenorol yr adolygiad diwethaf, yn enwedig natur ymgynghorol barhaus y broses."
>
> "Mae'n ymddangos yn broses symlach nag adolygiadau blaenorol, gyda mwy o ffocws ac eglurder."
>
> "Rwy'n credu bod y broses yn ymddangos yn glir a chryno iawn. Rwy'n meddwl y bydd y broses ymgeisio'n gweithio'n well na chyflwyno cynlluniau busnes yn unig ac yn rhoi ffocws clir inni."
>
> "Rydym ni'n croesawu'r ffordd dryloyw y mae'r Cyngor wedi ymgynghori am y broses ac rydym ni'n edrych ymlaen at gymryd rhan."
>
> "Rydym ni'n llwyr gefnogi'r pwyslais diweddar; sefydliad sy'n rhoi budd i bawb yn ein hanfod ydym ni ac rydym ni hefyd yn hapus i'ch helpu i ddarparu budd i bawb."
>
> "Mae'r celfyddydau gwirfoddol, ers tro, wedi bod yn archwilio creadigrwydd mewn gwahanol gymunedau mewn gwahanol ffyrdd, yng Nghymru a Phrydain. Rydym ni'n ddiolchgar i'r Cyngor am ariannu prosiectau i gefnogi hyn. Felly rydym ni'n arbennig o gefnogol i'r nod o gydnabod pwysigrwydd cael cymdeithas yng Nghymru sy'n gwerthfawrogi a pharchu creadigrwydd ei holl ddinasyddion; ac o ddefnyddio cydraddoldebau fel egwyddor drefniadol i gyflawni hyn."

## Cwestiwn 16

**Pa agwedd ar yr adolygiad yr hoffech ei newid neu ei gwella?**

### Crynodeb

Ar y cyfan roedd yr ymatebion yn rhoi sylwadau cyffredinol yn ogystal ag awgrymu gwelliannau.

Dyma'r rhai na soniwyd amdanynt rywle arall yn y ddogfen:

> **"Mae'n broses gwbl newydd inni a dylai fod rhagor o help i'r rhai sydd yn ein sefyllfa ni."**

### Ein hymateb

Deallwn ni y bydd y broses yn hollol newydd i rai a bod y newidiadau i'r prosesau blaenorol yn newydd i bawb. Rydym ni wedi llunio nodiadau cymorth i'ch helpu i baratoi'r dogfennau gofynnol ac mae dogfennau eraill, y cyfeirir atynt yn ein canllawiau cynllunio, a ddylai fod o gymorth hefyd.

Rydym ni hefyd yn croesawu cwestiynau drwy'r blwch e-bost sydd yn y canllawiau cynllunio. Byddwn ni'n cyhoeddi pob ymateb perthnasol i'r ymholiadau hyn ar ein gwefan.

Soniodd rhai am werth am arian.

> **"Hoffem fwy o arweiniad am werth am arian - a oes fformiwla neu feini prawf ar gyfer hyn?"**

O ganlyniad i gyni ariannol parhaus, rydym ni wedi annog y portffolio i geisio lleihau eu dibyniaeth ar ein harian. Mae'r rhai sy'n craffu ar ein penderfyniadau ariannu'n gofyn yn rheolaidd inni gyfiawnhau gwerth am arian ein sefydliadau. Mae lleihau dibyniaeth ariannol yn uchelgais dilys, ond mae ei gyflawni yn gymhleth ac mae llawer o ffactorau gwahanol yn effeithio ar y sefyllfa – maint y sefydliad, ei leoliad (trefol neu wledig), pa fath o weithgarwch, effaith arianwyr eraill (os oes).

Rydym ni wedi ymwrthod â gosod targedau penodol yn y maes yma. Ond rydym am glywed gennych chi – yn eich geiriau eich hun – sut rydych chi'n mynd i'r afael â gwerth am arian.

## Ein hymateb

Gall asesu gwerth am arian yn y celfyddydau fod yn anodd a dadleuol. Mae diffiniadau traddodiadol o werth am arian yn tueddu i sôn am effaith pob punt a werir i wella bywyd pobl, neu'r defnydd gorau o adnoddau i gyflawni'r canlyniadau. Un o elfennau allweddol y ddau ddiffiniad yw gwneud y defnydd gorau o'r adnoddau sydd ar gael i gyflawni canlyniadau o ran datblygiad cynaliadwy.

O ran y celfyddydau, nid oes ateb hollol bendant. Felly bydd angen inni edrych ar bob achos yn ôl ei rinweddau ei hun. Ond byddwn ni'n gofyn ichi nodi beth rydych chi'n ei wneud i gynyddu gwerth am arian eich gweithgarwch gan gydnabod na fydd hyn yn fater o bunt y person, o bosibl. Gwyddom fod rhai sefydliadau'n gweithio gyda llai o bobl ond mewn modd dwysach - felly gall gwahanol fathau o arferion celfyddydol, o ran maint neu effaith, o hyd fod yn fuddsoddiad da. Dylech nodi hyn yn eich cais.

"Mae'r amser a'r gwaith sydd ei angen i gyflawni'r broses i bawb yn aml yn cymryd sefydliadau ac artistiaid i ffwrdd rhag cyflawni eu priod waith."

## Ein hymateb

Rydym ni'n cydnabod y pryder ac yn gwerthfawrogi'r amser a'r egni y mae'n ei gymryd i lunio cais da. Ond os ydym ni am fod yn hyderus ein bod yn ariannu'r sefydliadau iawn, rhaid inni gael proses gadarn a thrylwyr ar gyfer adolygu ein portffolio. Dros gyfnod o bum mlynedd byddwn ni'n buddsoddi dros £135 miliwn o arian cyhoeddus. Felly rhaid inni ymgymryd â'r broses adolygu fwyaf trwyadl a gofalus.

"Dylai penderfyniadau ynghylch lefel yr arian fod â pherthynas agosach ag effaith sefydliad. Polisi clir y Cyngor yw bod yn rhaid i'r celfyddydau gyrraedd yn ehangach ond mae angen i lefelau ariannu ystyried hyn drwy gynyddu arian i sefydliadau sy'n gallu cyrraedd cynulleidfa eang ac amrywiol. Yn rhy aml o lawer, rhoddir arian i sefydliadau mwy nad ydynt mewn sefyllfa dda i gyflawni hyn ar draul y sefydliadau ar lawr gwlad."

"Gwneud y broses yn onest ac yn gyhoeddus fel y gall pawb weld y diffygion a'r llwyddiannau, i osgoi unrhyw lygredd a allai fod yno."

## Ein hymateb

Cytunwn ni fod angen inni ariannu'r sefydliadau cywir yn y lleoedd cywir i gyflawni i'r rhaglen waith gywir i'r gynulleidfa ehangaf bosibl. Mae hyn yn ganolog i'r adolygiad, ac er ein bod hefyd yn cydnabod y rhan y gall sefydliadau mwy ei chwarae yn y sector, bydd gan y sefydliadau sy'n gallu cyflawni'n ehangach wir gyfle i lwyddo.

Nid oedd yn glir gyda'r ail sylw a oedd yr ymatebydd yn cyfeirio at lygredd yn y sector neu yn y Cyngor. Rydym ni wedi cynllunio'r broses i fod mor agored â phosibl ac mae archwilwyr annibynnol, Deloitte, yn craffu ar y broses hefyd.

Bydd ein proses asesu yn edrych ar drefniadau llywodraethu ymgeiswyr i leihau'r perygl o lygredd.

"Drueni nad oes blwyddyn o ddigolledu ariannol fel yr oedd (cyn belled ag yr ydw i'n ei chofio) yn 2015. Bydd yn anodd cael arian i gymryd lle arian refeniw o ystyried yr amserlen dynn ar gyfer penderfyniadau. Bydd yn anodd iawn i sefydliadau sy'n colli eu harian portffolio ddod o hyd i arian newydd mewn 3 mis."

## Ein hymateb

Mae'n debyg y bydd arian pontio ar gael ar gyfer yr aelodau presennol o'r portffolio sy'n colli eu harian fel rhan o'r broses.

Byddwn ni'n cyhoeddi rhagor o fanylion am hyn maes o law – yn fwy na thebyg ar yr un pryd â chyhoeddi'r penderfyniadau.

"Mae'n gyfnod hir i'r Cyngor gnoi cil rhwng cyflwyno ceisiadau a chyhoeddi penderfyniadau mewn egwyddor ym Medi 2020. Nid yw'n glir sut y byddwch chi'n parhau i ymgysylltu ag ymgeiswyr - yn enwedig aelodau o'r portffolio presennol - yn ystod y cyfnod yna (er bod sôn am borth ar y wefan).

Gallech chi wella'r broses gyda system strwythuredig ar gyfer adborth gan gydnabod, er na fyddwch chi'n derbyn unrhyw newidiadau neu ddiwygiadau i gais yn ystod y 5 mis yna, ei bod yn bosibl y gallai gwybodaeth neu newidiadau perthnasol ddigwydd yng nghwrs busnes arferol ymgeisydd a allai effeithio ar ei gais.

Mae hyn yn arbennig o berthnasol yn achos sefydliadau a all fod yn y broses o newid neu ddatblygu, felly efallai y dylech chi feddwl ragor am y 5 mis yna."

## Ein hymateb

Er mwyn bod yn ymarferol ac yn deg, bydd angen inni gyfyngu ar gyflwyno gwybodaeth newydd i'r broses ar ôl dyddiad cau’r ceisiadau. Mewn amgylchiadau eithriadol, er enghraifft, lle mae'n dod yn amlwg wedyn na allai sefydliad gyflawni rhan fawr o'i gynllun busnes, efallai y bydd angen inni gynnwys hyn yn ein hystyriaethau. Ond dylai ymgeiswyr gyfeirio at newidiadau posibl ym modelau busnes y dyfodol yn y dogfennau cais neu yn y gofrestr berygl yn eich cynllun busnes.

Fel yr awgryma'r ymatebydd, bydd cyfle yn ystod y broses ymgeisio inni ateb unrhyw gwestiynau a all godi.

> "Ar ôl cyflwyno ein cynllun busnes yn ddiweddar, mae'n rhaid inni lunio dogfen arall – yn ein hachos ni, byddwn ni’n creu tri gwahanol senario ar gyfer sefyllfaoedd ariannu posibl. Byddai wedi bod yn ddefnyddiol cael canllawiau cliriach ynghylch hyn cyn cyflwyno'r cynllun busnes yn Hydref 2019."

## Ein hymateb

Rydym ni wedi cyfeirio'n rheolaidd at gynlluniau busnes fel dogfennau sy’n fyw ac yn disgwyl i sefydliadau eu diweddaru'n rheolaidd. Felly, rydym ni’n gofyn am y fersiwn ddiweddaraf o'ch cynllun busnes yn hytrach na dogfen newydd. Rydym ni’n gobeithio y bydd sefydliadau'n cydnabod pwysigrwydd cadw'r rhain yn gyfoes at eu dibenion eu hunain yn hytrach na'u cynhyrchu i ni ddim ond pan fyddwn ni’n gofyn amdanynt.

> "Mae dim ond unwaith bob 5 mlynedd yn gyfle prin i gael newid sylweddol mewn sefydliad a chynllunio ar ei gyfer. Byddai'n ddefnyddiol pe bai mwy o gyfathrebu agored gan y Cyngor ynghylch pryd i ddisgwyl y cyfleoedd hyn a hefyd efallai cael cyfle mwy rheolaidd i geisio ymuno â’r portffolio."

## Ein hymateb

Rydym ni’n cydnabod y gall y broses gymryd peth amser i sefydliadau ac mae eraill wedi sôn am hyn hefyd. Rydym ni felly wedi ceisio cydbwyso'r awydd i adnewyddu'r portffolio â'r pwysau y mae'n eu rhoi ar ddarpar ymgeiswyr (aelodau o’r portffolio presennol ac ymgeiswyr newydd) wrth benderfynu ar gylch o ryw bum mlynedd.

Er ei bod yn anghyffredin, mae amgylchiadau lle gallai aelodau newydd ymuno â’r portffolio rhwng ein hadolygiadau. Mae rhagor o sôn am hyn yn ein dogfen, *Polisi rheoli aelodau o’r portffolio*, sydd ar ein gwefan.

"Mae cyfle i ystyried gwahanol fodelau ariannu - benthyciadau ad-daladwy, buddsoddiadau a allai ddychwelyd difidend i’r Cyngor ac ystyried lefelau gwahanol o ariannu yn ôl y flwyddyn i wobrwyo uchelgais. Ymddengys fod y rhybudd cryf yn y canllawiau ynglŷn â'r risgiau o ofyn am gynnydd sylweddol yn awgrymu y gallai'r adolygiad osgoi gwneud asesiadau annibynnol o'r hyn sydd ar sefydliadau ei wir angen er mwyn cyflawni eu rhaglenni.”

## Ein hymateb

Mae'r syniad o fenthyciadau a buddsoddiad yn un diddorol ac yn un rydym ni wedi'i ystyried. Gan ddibynnu ar y ceisiadau a gawn ni o ran eu lefel, eu math a'r cynigion ynddynt, efallai y byddwn ni eisiau meddwl am ffyrdd mwy dychmygus o ariannu'r portffolio.

Rydym ni’n fodlon ystyried codiadau i sefydliadau sy'n gallu dangos cyfleoedd eithriadol a realistig i gynyddu eu cyrhaeddiad i gynulleidfa fwy amrywiol.

Mewn sefyllfa lle mae arian yn aros yn ei unfan, bydd rhai ar eu hennill a rhai ar eu colled. Nid ydym ni’n rhagweld rhoi codiadau i sefydliadau dim ond er mwyn llenwi bylchau pan nad oes cynnydd mewn allbwn neu gyrhaeddiad. Byddem ni hefyd yn annog ymgeiswyr i fod yn glir iawn am sut y maent yn bwriadu cyflawni eu targedau os byddant yn gofyn am godiad.

## 5. Sylwadau i gloi

Diolch am gymryd yr amser a'r egni i ymateb i'r ymgynghoriad. Rydym ni’n ei werthfawrogi'n fawr iawn.

Mae’r Cyngor wedi ystyried eich sylwadau ac wedi diwygio'r dogfennau (a'r broses) yn unol â'r ymatebion sydd yn y ddogfen yma.

Bydd adolygiad buddsoddi 2020 yn agored i geisiadau o **hanner dydd ddydd Llun 2 Mawrth 2020**.

Byddwn ni’n cyhoeddi’r canllawiau a’r wybodaeth derfynol ar y dyddiad yma ar ein gwefan.

Dyddiad cau ymgeisio yw **hanner dydd ddydd Gwener 24 Ebrill 2020.**

Dyddiad cau pendant ydyw ac ni fyddwn ni’n derbyn ceisiadau hwyr.

Byddwn ni’n cyhoeddi bwletinau a diweddariadau rheolaidd ar gynnydd yr adolygiad, felly cadwch lygad barcud ar ein gwefan i gael rhagor o wybodaeth.

Yn olaf, os ydych chi'n ymgeisio, pob lwc!